SUL CYFFREDIN 13

GENESIS 32:22-31; SALM 17:1-7, 15;
RHUFEINIAID 9:1-5; MATHEW 14:13-21

● **Gweddi agoriadol**

Dduw grasol,
tyrd â'th fendith
i'r cyfarfod hwn o'th bobl
ddaeth ynghyd yma heddiw;
siarad â'n calonnau
yn yr emynau a ganwn,
y gweddïau a gyflwynir
a'r darllen
a deall dy air,
er mwyn i ni fynd i'r byd
wedi ein hadnewyddu,
a thrwy ein byw
ddwyn goleuni i eraill.

● **Moliant**

Duw trugaredd wyt ti,
yn dod â chyfanrwydd
i galonnau a bywydau toredig;
Duw'n darpar wyt ti,
yn dod â maeth
i gorff ac enaid;
yn gariadus cyflwynwn i ti
offrwm ein moliant.

Duw trugaredd wyt ti,
yn barod i faddau
er gwaethaf ein methiant;
ti yw Duw gwaredigaeth,
yn dod â gwir ryddid
oddi wrth bopeth sy'n ein caethiwo;
yn gariadus cyflwynwn i ti
offrwm ein moliant.

● **Cyffes**
Maddau i ni,
er i'n bywydau
gael eu bendithio
yng ngweithred syml gweddi,
eto, mor aml,
petruswn
  fel pe ofn gofyn.
Caniatâ i ni y ffydd
  a'r sicrwydd o wybod
bod yr hyn a geisiwn mewn ffydd,
yn cael ei ateb
yn dy gariad mawr
ac yn dy amser dy hun.

Diolch i ti,
achos bendithir ein bywydau
yng ngweithred syml gweddi.

● Diolch

Diolch i ti, Arglwydd,
am ddangos i ni nad oes i gariad
na ffiniau na phen draw
ond ei fod yn gwrando
gydag amynedd,
cydymdeimlad a gras,
ac yn cerdded yr ail filltir,
ac yn rhoi
heb gyfri'r gost.

Diolch i ti am roi i ni
galon dros y rhai a geri
ac awydd i gamu mewn ffydd
i'th wasnaethu di
drwy rannu dy gariad gydag eraill.

Diolch i ti, Arglwydd,
am ddangos y gall gwir gariad
fod yn eiddo i ni,
i'w fwynhau ac i'w roi.